

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# GWOBRAU ARFER DA 2021

## YR ENILLWYR

Tai Wales & West Housing

**Noddwyr Arweiniol**

# Gyda diolch i'n noddwyr

Tai Wales & West Housing

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

# GWOBRAU ARFER DA 2021

Gwyddom eich bod oll yn gwneud llawer o ymgysylltu gwych rhwng tenantiaid a chymunedau, er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd TPAS Cymru eisiau cydnabod y gwaith hwn a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i denantiaid, preswylwyr a chymunedau.

**Eleni eto, fe drefnon ni ddigwyddiad Gwobrau rhithiol i ddathlu a rhannu peth o'r arfer da hwn ac i gefnogi ac ysbrydoli eraill.**

Y 5 categori ar gyfer 2021 oedd:

1. Cymunedau yn Cefnogi Cymunedau
2. Gwneud i Gyfranogiad Tenantiaid Weitho Ar-lein
3. Cynnwys Tenantiaid wrth Lunio Gwasanaethau
4. Cyfathrebu â Thenantiaid a Phreswylwyr
5. Tenant y Flwyddyn

Rhoddwyd Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig gan y beirniaid hefyd.

**Yn y llyfryn hwn, rydyn ni'n rhannu gyda chi'r 6 ymgais fuddugol a 3 uchaf y beirniad ym mhob categori.**

Diolch i enwebwyr y gwobrau am ddarparu'r cynnwys ar gyfer yr adroddiad hwn. Rydyn ni wedi ychwanegu eu manylion cyswllt ar gyfer pob un o'r ceisiadau buddugol os ydych chi eisiau darganfod mwy am y prosiectau.

**Diolch eto i bawb a gymerodd ran, a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y ceisiadau buddugol gymaint ag y gwnaethom ni.**

# Cymunedau yn Cefnogi Cymunedau

## ENILLYDD

## MaesNi

**Mae MaesNi yn grŵp sy'n galluogi ac yn cefnogi preswylwyr a grwpiau ym Maesgeirchen a Tan-yBryn (Bangor, Gogledd Cymru) i sicrhau bod eu gweledigaethau i'w wneud yn lle gwell i fyw yn digwydd! Mae'n cynnwys preswylwyr a phartneriaid allweddol sy'n gweithio ac yn cefnogi preswylwyr ym Maesgeirchen a Tan y Bryn**

### Y math o gefnogaeth a ddarperir:

**Cefnogi prosiectau cymunedol dan arweiniad preswylwyr a sicrhau cyfranogiad ystyrlon wrth lunio prosiectau**: ailwampio parc chwarae newydd, datblygu canolfan gymunedol integredig newydd, prosiect gardd farchnad.

- Dyluniwyd y parc chwarae newydd gan bobl ifanc a rheolir y prosiect gan Adra ac mae wastad yn brysur, gan ddarparu canolbwynt awyr agored a chyfleoedd chwarae diddorol i blant a phobl ifanc o bob oed yn ogystal ag ardal bicnic teuluol.
- Bydd y ganolfan gymunedol newydd yn cwrdd â blaenoriaeth preswylwyr am ofod cymdeithasol, dan berchnogaeth gymunedol, a gwell mynediad at wasanaethau y mae preswylwyr wedi gofyn amdanynt. Ar hyn o bryd mae hyn yn y cam dichonoldeb, a reolir gan Gyngor Gwynedd, lle rydym yn datblygu cynlluniau ac yn ystyried safleoedd ar gyfer y ganolfan gymunedol newydd

**Cefnogi grwpiau**: Mae MaesNi wedi cefnogi grwpiau cymunedol wrth ariannu prosiectau neu adnoddau penodol (e.e. rhandiroedd, clwb bocsio, pêl droed, grwpiau rap a chelfyddydau perfformio a phartneriaeth gymunedol), gan gefnogi grwpiau newydd i ffurfio a dod yn gynaliadwy (e.e. *Showzone*, *Letters Grow, Growing for Change*), gyda hyfforddiant, datblygu, cyllid am gwaith â thâl lle mae gweithgareddau grwpiau bellach yn cynnwys pobl nad ydynt yn wirfoddolwyr, a mynediad at adnoddau a chyfleoedd, ac wastad yma i roi cefnogaeth barhaus i'r grwpiau. Golyga hyn bod cyfleoedd mwy rheolaidd i blant a phobl ifanc yn arbennig i ymgysylltu ag hobïau, dysgu a datblygiad personol, i gysylltu ag eraill ac yn anad dim, i gael hwyl a chael ymdeimlad o gyflawniad!



**Gweithgareddau:** cefnogaeth gyda sefydlu pêl-droed cymunedol wythnosol (plant yn erbyn oedolion!) a ddechreuwyd gan y plant, grŵp cerdded, grŵp garddio, Caffi cymuned *Hive*. Mae'r rhain yn ffordd o gysylltu, dod at ein gilydd, lle i breswylwyr ddod â syniadau ar gyfer pethau eraill a fyddai'n dda i'r gymuned ac yn anad dim, i chwerthin!

**Cyfleoedd gwirfoddoli:** grŵp gwelliannau amgylcheddol a garddio wythnosol, caffi cymunedol *Hive*, cydweithfa ffrwythau a llysiau ac mewn gweithgareddau / digwyddiadau / prosiectau. Mae yna graidd hyfryd o wirfoddolwyr rheolaidd gydag e.e. y grŵp amgylchedd, Caffi *Hive*, grŵp llywio MaesNi a grwpiau eraill fel y celfyddydau perfformio. Mae eraill yn teimlo bod croeso iddynt bigo i mewn fel y gallant - e.e. Caffi *Hive* , cydweithfa ffrwythau a llysiau, grŵp llywio MaesNi - ac yna mae mwy yn dod at ei gilydd o amgylch gweithgareddau neu ddigwyddiadau penodol (sinema, parti stryd ac ati).

**Eiriolaeth a llais:** cefnogi preswylwyr i eirioli dros eu hanghenion eu hunain yn lleol / rhanbarthol / cenedlaethol, e.e. addysg ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd, newidiadau lle mae darparu gwasanaeth a strwythurau systemig yn methu â diwallu anghenion (e.e. o amgylch tlodi, cymorth i deuluoedd, mynediad at ofal plant, cefnogaeth covid).

**Gwella mynediad at gyfleusterau cymunedol:** lleoedd cymunedol ar brydles ac arian i grwpiau cymunedol eu llogi yn ogystal â datblygu canolfan gymunedol newydd mewn ffordd y mae preswylwyr ei heisiau. Rydym hefyd yn defnyddio ac yn tynnu defnydd rheolaidd o fannau i adeiladu ymgysylltiad.

**Hyfforddiant:** Gan ymateb i themâu a gofyniadau uniongyrchol, rydym wedi galluogi cyrsiau am ddim yn y gymuned fel Makaton, diogelu, cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, cymorth cyntaf iechyd meddwl, lles, Chwarae, gwytnwch a chefnogi pobl ifanc ag iechyd meddwl.

## Sut y cyflawnwyd anghenion y cymunedau / unigolion

Mae gweithgareddau MaesNi yn cael eu gyrru gan anghenion a dyheadau'r gymuned. Mae preswylwyr yn siapio'r hyn y mae MaesNi yn ei wneud trwy fod ar y grŵp llywio, gyda gweithwyr yn ymgysylltu ac yn gwahodd cyfranogiad a chyfeiriad ystyrlon ar eu telerau nhw – e.e. trwy alw heibio, grwpiau a gweithgareddau yn ogystal ag ymgynghoriadau mwy ffurfiol. Mae'r gymuned yn gweithio gyda nifer o sefydliadau partner sydd hefyd yn rhan o grŵp llywio MaesNi, gan gynnwys Adra, Cyngor Gwynedd, Elfennau Gwyllt, Eglwys y Groes, PMP (Partneriaeth Maesgeirchen Partnership), Tŷ Penrhyn ac eraill. Mae barn preswylwyr yn ganolog i'r cynllun Gyrru Newid, sy'n arwain nod a gweledigaeth MaesNi, sef gwneud y gymuned yn lle gwell fyth i fyw.

**Cefnogi preswylwyr a grwpiau i ddiwallu anghenion:** gweithio gyda gwirfoddolwyr a sefydliadau a grwpiau eraill drwy'r pandemig i ddarparu cefnogaeth gynnar, ymatebol a chydgysylltiedig gan gynnwys bwyd brys, presgripsiynau, tanwydd, pecynnau gweithgaredd hwyliog i deuluoedd, cefnogaeth ddigidol ac iechyd meddwl a lles. Gweithiodd y grŵp gyda mwy na hanner yr aelwydydd ar draws yr ystâd yn ystod cyfnod clo.

Mae'r gefnogaeth hon yn barhaus ac yn cael ei wneud yn gynaliadwy gyda chymorth dod yn Beilot Hwb Cymorth Covid dan arweiniad cymunedol LlC / BCUHB sy'n cynnwys profion llif ochrol am ddim a chefnogaeth estynedig lle mae Covid naill ai'n cael effaith tymor byr neu dymor hir a lle rydyn ni'n adeiladu gwell mynediad at wasanaethau ar delerau preswylwyr a gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud e.e. bwyd a thanwydd brys yn barhaus ac yn gynaliadwy. Mae'r hwb yn cael ei redeg o adeilad Adra yn Llys Dylan, Maesgeirchen ac rydym yn parhau i ddiwallu anghenion dros 150 o drigolion bob wythnos ac addasu'r hyn y gallwn ni helpu efo. Rydym hefyd wedi denu mwy o wasanaethau i gael eu lleoli yn y gymuned a gweithio gyda MaesNi e.e. gweithiwr cymorth iechyd meddwl llawn amser.

## Yr effaith y mae'r gefnogaeth wedi'i chael ar unigolion / cymunedau

Dywedodd y Cynghorydd Lleol, Nigel Pickavance:
*"I have been blown away to see just what MaesNi have been doing in recent times. Not just supporting community projects but supporting individuals and families in so many different ways, too many to mention. This support and care for families and individuals is valuable and as a community we are so lucky to have this in place and more so, the work and effort from Jess and Paul (MaesNi support workers) which is making a huge difference to lives. I would just like to thank them and their teams behind the scenes for their superb efforts".*

Dywedodd Eirian Willams Roberts, cyd-sylfaenydd *Showzone* (un o'r grwpiau a gefnogwyd gan MaesNi):
*"Since the closure of the long established Youth Club in Maesgeirchen there has been a great reduction of community based activities for the children and young people of Maesgeirchen and the surrounding area especially in the evenings after school or at the weekends.*



*Since ShowZone opened its doors in September 2020 and welcomed it's first members, the majority of whom are still with us today, we have gone from strength to strength at an alarming rate. The positive feedback we have received from the children, their families, the community, schools and further afield has been overwhelming. We have seen our members grow in confidence on a scale that we would never have imagined and not a week goes by when a parent tells us how much their son or daughter has grown and come out of themselves since they've been at ShowZone. There has been a need for something like ShowZone on the Maesgeirchen estate for years and we truly believe that need will continue for years to come. We intend to be here to fulfil that need".*

## Cynaliadwyedd y Prosiect ar gyfer y dyfodol

Y nod gyda'n mentrau hyfforddi yw cynnwys sgiliau sy'n galluogi preswylwyr i gynnal mwy o weithgareddau a digwyddiadau a grwpiau yn hyderus yn ogystal ag adeiladu rhwydwaith cymorth cymheiriaid, yn enwedig o amgylch iechyd meddwl a lles, a thrwy hynny adeiladu gwytnwch yn y gymuned..

Mae llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar ethos o wirfoddoli, ac annog preswylwyr i ddod at ei gilydd i helpu ei gilydd a'u cymunedau. Mae llawer o breswylwyr yn gwirfoddoli gyda ni yn rheolaidd, gan adeiladu sgiliau a'r gallu i barhau â gweithgareddau a datblygu'r gymuned am flynyddoedd i ddod. Rydym yn credu mewn cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial a theimlo'n rhan o'u cymuned gan mai nhw yw dyfodol ein cymunedau.

Ar ben cefnogi grwpiau presennol mae MaesNi wedi helpu grwpiau newydd i sefydlu sy'n darparu cyfleoedd newydd i dros 60 o blant bob wythnos. Tra cychwynnodd MaesNi gyda phot o arian ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol, mae cyllid bellach yn llawer mwy cynaliadwy ac mae grwpiau'n fwyfwy hyderus a llwyddiannus wrth geisio am eu cyllid eu hunain.

Mae'r gweithgareddau a ddatblygir trwy Maes-Ni yn dod yn fwyfwy cynaliadwy wrth i amser fynd yn ei flaen fel bod angen i MaesNi fod ar gael yn y pen draw fel cymorth yn ôl yr angen ac yna camu'n ôl.

Gallwch weld rhywfaint o'n gweithgareddau yma: www.facebook.com/groups/MaesNi

Dyma rai o'r grwpiau rydyn ni wedi'u cefnogi yma:
www.facebook.com/maesg.showzone www.facebook.com/LettersGrowOfficial

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: elin.williams@adra.co.uk**

2il

**Pantri Gymunedol Tremorfa**
Cyswllt:
Rhiannon.Robertson@ccha.org.uk

3ydd

**Cefnogaeth Cymuned Aberteifi**
**Daren Howe**
Cyswllt:
Alison.Stokes@wwha.co.uk

# Gwneud i Gyfranogiad Tenantiaid Weithio Ar-lein

**ENILLYDD**

## Ymarfer Yn Gwneud Cynnydd - CT Newydd

### Y gefnogaeth a roddir i denantiaid i'w galluogi i gymryd rhan gan ddefnyddio gwahanol lwyfannau / dulliau ar-lein


Mae ein Swyddog Cynhwysiant Digidol a'n Cynorthwyydd yn cynnig cefnogaeth bersonol a rhithiol i unrhyw denant sydd wedi'i wahardd yn ddigidol. Gall tenantiaid fenthyg offer TG, gyda mynediad at Wi-Fi, yn rhad ac am ddim a darperir hyfforddiant a chefnogaeth i wella sgiliau a hyder tenantiaid. Mae llawlyfrau cyfarwyddiadau hawdd eu darllen ar amrywiaeth o gymwysiadau a meddalwedd hefyd wedi'u cynhyrchu i helpu'r defnyddiwr yn ogystal â dogfen protocolau cyfarfod ar-lein sy'n cael ei rhannu â chyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan mewn cyfarfodydd.

Mae meddalwedd *ReciteMe* wedi'i ychwanegu at ein gwefan i alluogi mynediad haws at wybodaeth. Mae'r meddalwedd newydd yn cynorthwyo gwylwyr gyda materion llythrennedd a nam ar eu golwg ac yn mynd i'r afael â rhwystrau cyfathrebu oherwydd gall tenantiaid addasu ymddangosiad a maint ffont y wefan i weddu i'w hanghenion; newid y cynnwys i iaith arall; defnyddio chwyddwydr; a defnyddio geiriadur os nad yw geiriau'n ddealladwy.

### Yr ystod o weithgareddau ymgysylltu ar-lein:

- **Annog ymgysylltiad tenantiaid mwy amrywiol** - cynhyrchwyd fideo Canva y deg cyfle cyfranogi gorau gydag amrywiaeth o opsiynau gydag ymrwymiadau amser gwahanol i annog mwy o denantiaid i gymryd rhan
- **Gwella Tenant Graffu** - Rydym bellach wedi hwyluso tair cynhadledd Facebook ar y cyd rhwng Newydd a'r Grŵp Tenant Graffu ac mae adborth ehangach gan denantiaid yn llywio'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Craffu sy'n helpu i wella a gyrru ein gwasanaethau ymlaen
- **Cipio barn tenantiaid ehangach** – Rydym yn defnyddio ymgynghoriadau arolwg SNAP ar-lein i gasglu adborth ar bynciau a meysydd gwasanaeth amrywiol sy'n cynorthwyo gwelliannau gwasanaeth
- **Codi ymwybyddiaeth o faterion pwysig** - Mae sesiynau *'Straight Talking'* gyda Grŵp Tenant Graffu Newydd wedi'u recordio a'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol ac ar 'Fy Newydd' i godi ymwybyddiaeth o faterion blaenoriaeth ymhlith tenantiaid a'r gymuned ehangach

- **Cefnogi ein tenantiaid hŷn -** rydym wedi gosod pyrth yn ein 5 lolfa gymunedol byw'n annibynnol nid yn unig fel ffordd o frwydro yn erbyn arwahanrwydd cymdeithasol, ond i sicrhau y gall tenantiaid ddweud eu dweud ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn
- **Galluogi tenantiaid i lywio ein cyfeiriad yn y dyfodol** – Ar wahân i weithgareddau Tenant Graffu a NEADS (Is-grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Newydd), rydym yn cynnal ymgyrch 'Ydych chi eisiau bod yn ddylanwadwr Newydd?' lle mae arolwg SNAP ar-lein yn cael ei ddefnyddio i ymgynghori â thenantiaid ar thema'r 5 cynllun corfforaethol newydd - twf, cynaliadwyedd, diogelwch, cefnogaeth a gwasanaethau rhagorol
- **Galluogi cyfathrebu cyflymach a haws** - Mae What'sApp, Zoom, Teams ac E-byst yn awr yn cael eu defnyddio fel y prif ddulliau o gyfathrebu â'n Grŵp Tenant Graffu
- **Gwella dogfennau arweiniol** - ymgynghorir â'n Panel Darllen a Pholisi trwy e-bost ar amrywiol bolisïau a dogfennau i sicrhau eu bod yn berthnasol, yn gywir ac yn hawdd eu deall
- **Gwreiddio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** - Mae ein Is-grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i sefydlu gyda staff a thenantiaid allweddol i ddatblygu ein cynllun gweithredu (Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth). Cynhelir cyfarfodydd ar Zoom (2 gyfarfod, un yn ystod y dydd ac un arall yn gynnar gyda'r nos i alluogi tenantiaid sy'n gweithio i gymryd rhan yn y maes gwaith allweddol hwn)
- **Cynnwys tenantiaid mewn penderfyniadau strategol** - bu cynrychiolaeth tenantiaid ar weithgor a phwyllgor archwilio Gwerth am Arian Newydd sydd ill dau yn cwrdd yn rhithiol ar Teams
- **Rhannu gwybodaeth** - mae ein tudalen Facebook Clwb Cymunedol yn ategu prif dudalen Newydd ac yn canolbwyntio ar weithgareddau cyfranogiad Newydd a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol o'r sector tai
- **Uwchsgilio tenantiaid** - mae tenantiaid yn mynychu hyfforddiant ar-lein a gweminarau i ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ymgysylltu â ni



- **Gwella perthnasoedd** – rydym yn hyrwyddo'n rheolaidd bod boreau coffi Zoom gyda staff allweddol ar gael i'n tenantiaid ar gais
- **Hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu** - rydym wedi defnyddio tudalen 'Fy Newydd' ar ein porth tenantiaid a gyrchwyd trwy ein gwefan i hysbysebu ein cyfleoedd cyfranogiad sydd ar y gweill, rhannu fideos gwybodaeth, dolenni i arolygon ac ati.

- **Profi ein gwasanaeth rheng flaen -** Siopa dirgel digidol - mae tenantiaid yn cael arolygon SNAP trwy e-bost sy'n cynnwys recordiad o alwadau ffôn anhysbys gan denantiaid - mae adborth yr arolwg a dderbyniwyd yn ein helpu i asesu ein safonau ac ansawdd y gwasanaeth (yn anffodus, mae'r arfer hwn wedi cael ei ddal yn ôl tra bod system ffôn newydd yn cael ei osod ond mae ail-lansiad wedi'i gynllunio cyn bo hir)
- **Rhannu straeon tenantiaid** – mae gennym dudalen blog '*Up Your Street'* ar ein gwefan sy'n rhannu cynnwys a ysgrifennwyd gan ein tenantiaid
- **Problem resolution** - Mae'r *'Live Chat'* ar y wefan yn galluogi tenantiaid i siarad yn uniongyrchol â Swyddog Datrysiadau Cwsmer
- **Ymgysylltu meddal** – Mae prosiect hapi Newydd a ariennir gan loteri wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ers nifer o flynyddoedd ac ar ddechrau'r pandemig symudwyd eu holl weithgareddau ar-lein i'w tudalen Facebook gyda llwyddiant mawr a phellgyrhaeddol. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn helpu i wella hyder yn ogystal ag iechyd a lles corfforol a meddyliol ac mae'n gam cyntaf gwych tuag at annog ein tenantiaid i chwarae mwy o ran yn Newydd.

## Y canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma a'r buddion i'r boblogaeth ehangach o denantiaid

**Ffigurau ymgysylltu Cynhwysiant Digidol**
Hyd yn hyn eleni mae 40 o denantiaid wedi benthyca offer TG ac mae 37 wedi derbyn cefnogaeth / hyfforddiant gan y Swyddog Cynhwysiant Digidol a'r Cynorthwyydd (llynedd, roedd yn 101 a 158 yn y drefn honno - cefnogwyd 69 o denantiaid hefyd i gael mynediad at ddyfeisiau trwy Gynllun Benthyciad Tabled y Fro).

Fe wnaeth y Swyddog Cynhwysiant Digidol a'r Cynorthwyydd hefyd gefnogi a helpu i uwchsgilio ein Swyddogion Byw'n Annibynnol ar ddefnyddio'r pyrth i redeg eu gweithgareddau a'u digwyddiadau ymgysylltu yn effeithiol yn eu cynlluniau.

**Canlyniadau Cyfranogiad Tenantiaid**
- Ein fideo cyfleoedd cyfranogiad - https://youtu.be/xlIaS23hTDM
- 3 cynhadledd Facebook – y cyntaf yn wythnos o hyd gyda thema wahanol bob dydd, roedd yr 2il ar gyfathrebu ac mae'r un ddiweddaraf wedi bod ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – adborth ein hymgyrch *#YouSpokeWeListened* i denantiaid: beth sy'n newid o ganlyniad i'r adborth a gafwyd o ganlyniadau arolwg SNAP a sylwadau ar bostiadau / dogfennau.

- Mae Grŵp Tenant Graffu Newydd wedi recordio pedair sesiwn *'Straight Talking'* gyda staff allweddol Newydd a gwesteion o'r sector sydd wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol a 'Fy Newydd' ac sydd wedi cael derbyniad da gan denantiaid a'r gymuned ehangach. Bu i'r grŵp gyfweld:
    - Jason Wroe, Prif Weithredwr Newydd, am ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol https://youtu.be/XgQFv0CxkNY
    - Oonagh Lyons, Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau ac Elizabeth Lendering, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, am fforddiadwyedd a gwerth am arian https://youtu.be/J5Zd3lJ31PY
    - David Wilton, Prif Weithdredwr TPAS Cymru, am ei rôl a beth yw nodau a blaenoriaethau TPAS Cymru https://youtu.be/Gp9d5yqFlEI ac
    - Oonagh Lyons, Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau, Rachel Honey-Jones, Pennaeth Adfywio Cymunedol, a Ross Thomas, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus Tai Pawb ar bwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant https://youtu.be/ep1wupUTmLw
- Defnyddiwyd y pyrth yn y cynlluniau byw'n annibynnol ar gyfer cysylltu â'r cynlluniau byw'n annibynnol eraill ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (caewyd y lolfeydd cymunedol yn ystod y pandemig a chynyddodd arwahanrwydd cymdeithasol yn ystod yr amser hwn); mae'r pyrth hefyd wedi cael eu defnyddio ar gyfer sesiwn Holi ac Ateb gydag uwch reolwyr ac i rannu cynnwys fideo o'r diwrnod cynhadledd diweddaraf (mynychodd 28 tenant (ar draws 5 cynllun) y digwyddiadau personol a gynhaliwyd ar ddiwrnod y gynhadledd).
- Cyd-gynhyrchwyd Siarter Gwasanaethau Cwsmer yn llwyddiannus yng nghyfarfod NEADS (a gymeradwywyd yn ddiweddarach gan y Panel Darllen a Pholisi)
- Mae tenantiaid wedi mynychu gweminarau a sesiynau hyfforddi amrywiol dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys wythnos graffu TPAS Lloegr; gweminarau/ rhwydweithiau / hyfforddiant / cynadleddau TPAS Cymru; a chynhadledd flynyddol Tai Pawb
- Rhennir yr hysbyseb ar gyfer boreau coffi Zoom yn rheolaidd ar dudalen Facebook Newydd
- Gellir gweld tudalen 'Fy Newydd' yma: www.mynewydd.co.uk/Newydd/www/dashboard
- Ysgrifennodd un o'n tenantiaid stori gymhellol ar dudalen 'Up Your Street' ein gwefan am ei phrofiadau yn ystod y cyfnod clo https://www.newydd.co.uk/stories/up-your-street-introduction
- Mae ein tudalen Facebook hapi yn dangos y cyfoeth o
- weithgareddau a gynigir i denantiaid a'r gymuned ehangach https://www.facebook.com/hapiCymru

### Unrhyw broblemau ar hyd y ffordd a sut rydych chi wedi ceisio neu yn ceisio eu goresgyn

Mae gan rai o'n tenantiaid ddiffyg sgiliau a hyder TG. Mae hon yn her y mae ein Swyddog Cynhwysiant Digidol a'n Cynorthwyydd yn gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael â hi gan fod bod heb y sgiliau hyn nid yn unig yn rhwystro cyfleoedd tenantiaid i chwarae mwy o ran a chyfathrebu'n haws â Newydd, ond hefyd eu gallu i ryngweithio ar-lein â gwasanaethau eraill, i gael at cyfleoedd arbed arian ac maen nhw'n wynebu cael eu gadael ar ôl yn y byd digidol newydd hwn sy'n symud yn gyflym.

Rydyn ni'n ffodus bod gennym ni ethos diogel i fethu yn Newydd, felly rydyn ni'n cael ein grymuso i roi cynnig ar ddulliau ymgysylltu newydd a defnyddio'r gwersi rydyn ni'n eu dysgu i wella ac addasu yn unol â hynny.

### Unrhyw lwyddiant wrth ddenu tenantiaid newydd i gymryd rhan oherwydd bod y grŵp yn ymgysylltu ar-lein

Ar ddechrau’r pandemig, gwnaethom ymgynghori â 3139 o denantiaid trwy e-bost / post ar sut yr hoffent i wasanaethau adfywio cymunedol a chyfranogiad tenantiaid gael eu darparu yn y dyfodol a sut yr hoffent ymgysylltu â ni ar wella gwasanaethau. O ganlyniad, roedd gennym fwy o ddiddordeb yn ein cyfleoedd cyfranogi ac mae gennym ni nawr:

- 77 Llysgenad Ystadau (mae ein syrfewyr yn ymgynghori â thenantiaid cyn eu harchwiliadau ystad neu'n mynd gyda nhw ar eu hymweliadau)
- 73 aelodau Panel Darllen a Pholisi sy'n asesu ein polisïau a'n dogfennaeth
- 80 aelod o'n tudalen Facebook Clwb Cymunedol, a
- 57 Siopwyr Dirgel Digidol
- Dywedodd 77 hefyd y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol; 99 mewn ymgynghoriadau ar-lein; 94 mewn gwylio fideos wedi'u recordio ymlaen llaw. 75 mewn mynychu bore coffi rhithiol, a 58 mewn mynychu gweminar

### Gwersi a ddysgwyd

- Mae ymgysylltu'n ddigidol yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd gan nad oes teithio, gwastraffu papur nac argraffu. Cafwyd arbedion ariannol hefyd gan nad oes unrhyw gostau postio, deunydd ysgrifennu, llogi lleoliad ar gyfer cyfarfod personol, lluniaeth na thacsis i gael tenantiaid i ac o gyfarfodydd.
- Mae ymgysylltu ar-lein hefyd wedi golygu bod cyfranogiad wedi bod yn llawer mwy eang eu cwmpas ac wedi galluogi'r rhai na fyddent fel arfer yn ymgysylltu, i ymuno.
- Mae rhannu cynnwys fideo gan ddefnyddio'r pyrth wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai tenantiaid â nam ar eu golwg a'u clyw yn ei chael hi'n anodd mwynhau'r fideos a ddangoswyd ar ddiwrnod diweddaraf y gynhadledd, felly anfonwyd trawsgrifiadau fideo at y Swyddogion Byw'n Annibynnol i'w rhannu â'u tenantiaid wedi hynny.

## Datblygu Cyfranogiad Tenantiaid yn y dyfodol gan ddefnyddio dulliau ar-lein neu hybrid

- Rydym wrthi'n datblygu ein cynllun corfforaethol newydd ac ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori â'n tenantiaid trwy arolwg SNAP i ddarganfod beth mae themâu newydd twf, cynaliadwyedd, diogelwch, cefnogaeth a gwasanaethau rhagorol yn ei olygu iddyn nhw. Yna byddwn yn dilyn hyn gyda chyfarfodydd personol a gwibdeithiau, i drafod adborth yr arolwg ymhellach a hogi ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf
- Rydym yn bwriadu treialu sesiwn fyw ar Facebook ar fforddiadwyedd a Gwerth am Arian gyda Chyfarwyddwyr yn y dyfodol agos
- Byddwn yn ail-lansio ac yn ehangu siopa dirgel digidol i gynnwys adolygiad o ymatebion e-bost gwirioneddol a sgwrsio byw
- Byddwn yn gweithio ar y cyd â chymdeithasau tai eraill i ddatblygu datblygiad porth 'FyNghymru' i wella ymgysylltiad / cydlyniant cymunedol a chynnal iechyd a lles tenantiaid trwy gynnig mynediad hawdd i grwpiau ar-lein a chynnwys ystyrlon.
- Byddwn yn ychwanegu What'sApp a Zoom fel dewis cyfathrebu ar gyfer ein tenantiaid ar ein system rheoli tai
- Cyn bo hir, byddwn yn adolygu ein holl ddogfennau polisi yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi a byddwn yn cynhyrchu crynodebau hawdd eu darllen hefyd - bydd y rhain ar gael ar ein gwefan. Mae fersiynau hawdd eu darllen o ddogfennau cyfreithiol a phwysig hefyd yn cael eu datblygu ar gyfer tenantiaid sy'n cael trafferth gyda llythrennedd

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: tracy.james@newydd.co.uk**







**#InfluenceUs - ClwydAlyn**
Cyswllt:
Stuart.Hughes2@clwydalyn.co.uk




**Clywed Llais Ar-lein y Tenant - Cartrefi Conwy**
Cyswllt:
owen.veldhuizen@cartreficonwy.org

# Cynnwys Tenantiaid wrth Lunio Gwasanaethau

**ENILLYDD**

## Panel Cwynion - ClwydAlyn

### Sut mae gwasanaethau wedi cael eu llunio o ganlyniad i gyfranogiad tenantiaid

Mae'r Panel Cwynion yn cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Preswylwyr (o leiaf 3 Aelod craidd) a Gwirfoddolwyr #Dylanwadwch. Gwneir cyswllt bob chwarter â holl wirfoddolwyr Dylanwadwch (dros 200) i wahodd unrhyw un ohonynt i eistedd ar y Panel Cwynion. Yr hyn a ganfyddwn yw bod y gwirfoddolwyr hynny sydd wedi cael problem gydag atgyweiriad / apwyntiad penodol ac ati neu sydd â phrofiad uniongyrchol o'r broses gwynion yn awyddus i ymuno â'r Panel.

Mae adran safonol gyda'r cyfarfod ar yr agenda i ganiatáu adborth yn benodol gan Breswylwyr / Gwirfoddolwyr i roi llais iddynt ar unrhyw bwyntiau y maent eisiau bwydo yn ôl neu dynnu sylw atynt. Mae hyn wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac roedd y Swyddog Cwynion hefyd wedi cael cyfle i fynd ar drywydd unrhyw bwyntiau yn uniongyrchol gyda'r gwirfoddolwyr unigol y tu allan i'r cyfarfod, y gwnaed nifer o welliannau bach ond pwysig ohonynt.

Gan fod y Panel Cwynion yn cael ei arwain gan y Preswylwyr / Gwirfoddolwyr, gallant gyfarwyddo'r maes neu'r pwnc a fydd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. Gallant ofyn am bresenoldeb swyddogion penodol a gofyn am ddarparu gwybodaeth bellach ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gall y Panel gael trafodaeth agored a gonest wrth herio a cheisio atebion mewn amgylchedd diogel a thrwy hynny siapio ymhle yn y busnes y bydd y Panel yn canolbwyntio arno a pha faterion yr hoffent eu codi.

Isod mae'r meysydd y mae'r Panel a arweinir gan Breswylwyr wedi ymwneud yn uniongyrchol â llunio'r Panel Cwynion a'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu:

- Gofynnodd y Panel i sefydlu Cylch Gorchwyl i sicrhau bod pwrpas y Panel yn glir, gan nodi'r mecanwaith adrodd a'r gweithgareddau / cyfrifoldebau a neilltuwyd.
- Cytunodd y Panel y dylid ehangu'r aelodaeth i gynnwys gwirfoddolwyr Dylanwadwch, i ychwanegu dyfnder at wybodaeth, profiad a chanfyddiadau Preswylwyr o gwynion.
- Cytunodd y panel i ffurfioli agenda, i gynnwys eitemau safonol ac eitemau ad hoc dan arweiniad yr Aelodau.
- Cytunodd y Panel ar gymryd nodiadau i ddogfennu pob gweithred a materion dilynol - gan ddangos ymrwymiad y Panel i sicrhau bod pwyntiau gweithredu yn cael eu hystyried ac yn cael sylw.

- Cytunodd y Panel y dylai Uwch Swyddog fod yn bresennol ym mhob cyfarfod i hwyluso cyfarfod mwy cynhyrchiol a chraff, ac i ddarparu trosolwg o faes o'r busnes yn unol â chyfarwyddyd y Panel.
- Bellach, mae cyfarfodydd yn cael eu harwain gan Aelodau, gyda'r Panel yn pennu'r eitemau agenda ad hoc.
- Trwy'r Panel, mae cyfathrebu a chydweithio â Swyddogion wedi gwella'n sylweddol, nid bellach yn gweithio o dan ddiwylliant bai, ond yn gweithio tuag at nodi datrysiad neu wella gwasanaeth.
- Mae nodiadau o'r holl gamau gweithredu yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Preswylwyr. Pe bai unrhyw bwyntiau / gwelliannau proses sylweddol yn cael eu nodi, mae'r rhain hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo.
- Adroddir nodiadau cyfarfodydd y Panel, ynghyd ag unrhyw welliannau gwasanaeth a nodwyd i'r Bwrdd yn flynyddol.

Isod mae'r gwasanaethau gwirioneddol lle mae'r Panel wedi cyflwyno gwelliannau proses, meysydd yr awgrymir y dylid edrych yn agosach arnynt (lle mae materion wedi'u nodi yng nghyfarfodydd y Panel) neu lle mae'r Panel wedi gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar y cyfathrebiadau rhwng adrannau a gweithredu rhai bach, ond yn hynod bwysig, gwelliannau gwasanaeth:

- Argymhellir, ar gyfer cwynion Cam 2, y dylai'r Uwch Swyddog, lle bo hynny'n bosibl, gwrdd wyneb yn wyneb â'r Achwynydd i ddangos bod y Gymdeithas yn cymryd eu cwyn o ddifrif a gobeithio y gallai cyfarfod yn bersonol helpu i weithio trwy'r materion i ddatrysiad cyfeillgar.
- Helpwyd i gynhyrchu'r Pecyn Gwybodaeth Canmoliaeth a Chwynion i Breswylwyr, ynghyd â thaflen un dudalen. Roedd y daflen yr oedd y Panel yn mynnu arni, i roi amlinelliad clir a chryno o'r broses gwynion i Breswylwyr. Yn eistedd y tu ôl i hyn, roeddent eisiau Pecyn Gwybodaeth a oedd yn manylu'n glir ac yn gyfeillgar ar y cwestiynau a'r atebion a allai godi yn ystod y broses gwyno. Anfonir y Pecyn Gwybodaeth a'r daflen hon at bob Achwynydd i'w helpu i lywio'r broses gwynion.
- Llunio Taflen Ganllaw Iawndal i Swyddogion ei defnyddio wrth sefydlu swm yr iawndal y gellid ei ddyfarnu. Roedd hyn yn rhoi eglurder i'r Swyddog a'r Preswylydd, gyda llai o amwysedd, ac y gellid cyfrifo'r iawndal yn gyflymach ohono.
- O'r manylion a ddarparwyd gan wirfoddolwr Dylanwadwch yng nghyfarfod y Panel, gwnaed yn amlwg bod materion glanhau ffenestri mewn cynllun wedi dod yn anghynaladwy. Cytunodd yr Uwch Swyddog yn y cyfarfod i gysylltu'n uniongyrchol â Rheolwr y Cynllun i fynd i'r afael ag ef. Adroddwyd yn ôl i'r cyfarfod nesaf, canlyniad cadarnhaol gyda'r mater yn cael sylw a Phreswylwyr yn anfon canmoliaeth i'r staff glanhau.
- Llythyrau templed cwynion. Roedd y Panel yn allweddol wrth i'r Tîm Cwynion gael eu cyfarwyddo i adolygu ac ailwampio'r llythyrau cwynion. Ar ôl ystyried rhai cwynion, amlygwyd bod nifer o bwyntiau'n cael eu hadolygu. Mae'r rhain bellach wedi cael eu gweithredu, ynghyd â gwneud y llythyrau'n fwy person-ganolog, yn empathetig ac nid yn amddiffynnol. Fe'u gwnaed hefyd mor glir â phosibl i'r Swyddogion eu defnyddio. O'r herwydd, rydym nawr yn gweld gostyngiad yn nifer y cwynion sy'n cael eu symud ymlaen i Gam 2 - ei gael yn iawn y tro cyntaf

- Roedd y Panel yn allweddol wrth wthio drwodd bod angen adborth llawn i Achwynwyr ar unrhyw welliannau / newidiadau / gwersi a ddysgwyd mewn prosesau.
- Codwyd pwyntiau gan y Panel yn ymwneud ag awtomeiddio apwyntiadau a gwirio materion meddygol wrth godi apwyntiadau - awgrymwyd gwella prosesau.
- Trwy'r Panel, mae'r Swyddog Hwyluso wedi cael cyfle i gwrdd yn unigol â Gwirfoddolwyr Dylanwadwch, gan ymchwilio i rai materion cychwynnol a gweithredu fel cyswllt i gael sylw i'r pwyntiau. Yn gyntaf, mae hyn wedi mynd i'r afael â rhai materion nad oedd y Gymdeithas wedi cael gwybod amdanynt, ond mae hefyd yn meithrin ymddiriedaeth gyda Phreswylwyr, yn dangos ein bod yn gwrando, yn gwerthfawrogi eu mewnbwn ac yn gwella ein cyfathrebu cyffredinol.

## Sut oedd tenantiaid yn rhan o lunio'r gwasanaeth

O'r uchod, bu'r Panel Cwynion yn allweddol wrth ystyried, trafod a chyflwyno eu cynigion o ran sut y dylai'r Panel weithredu. Er mwyn cynorthwyo i alluogi lefel yr ymgysylltiad, cynigir y gefnogaeth ganlynol:

- Yn dilyn lansio Gwirfoddolwyr Dylanwadol (ein dull newydd a gwell ar gyfer cynnwys Preswylwyr), mae gwahoddiad rheolaidd yn cael ei anfon at holl aelodau cofrestredig Dylanwadwch yn eu cynghori ynghylch dyddiad y Cyfarfod Panel nesaf ac yn gofyn iddynt gysylltu os oes ganddynt ddiddordeb.
- Gwneir y cyswllt cychwynnol â Dylanwadwch gan y Swyddog Cyfranogiad Preswylwyr a fu'n ymwneud yn helaeth â llunio'r model Dylanwadwch ac sy'n adnabyddus i'r Gwirfoddolwyr. Mae'r Swyddog Cwynion yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog CP i sefydlu cysylltiadau â Phreswylwyr.
- Yn dilyn hysbysiad, bydd y Swyddog Cwynion yn cysylltu â'r gwirfoddolwr, fel eu bod yn gyfarwydd, yn amlinellu'r broses ac yn gwneud iddynt deimlo y'i croesewir a'i gwerthfawrogir a bod eu hadborth yn werthfawr iawn. Byddwn yn eu trafod trwy broses y cyfarfod ac yn mynd trwy unrhyw beth y mae ganddynt broblemau ag ef er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n gyffyrddus.
- Mae cyfarfodydd rhithiol wedi'u sefydlu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r Cynorthwyydd Llywodraethu yn trefnu hyn gyda'r unigolion ac yn darparu prawf i sicrhau eu bod yn hapus gyda'r dechnoleg a sut mae'n gweithio ac yn teimlo'n hamddenol ac yn gyfarwydd â'r dull hwn yn barod ar gyfer y cyfarfod.
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb - rydyn ni'n ceisio defnyddio lleoliad allanol fel un o'n cynlluniau. Trefnir cludiant neu telir treuliau. Darperir cinio hefyd.
- Pe bai unrhyw wirfoddolwyr Dylanwadwch yn teimlo ychydig yn frawychus neu'n ansicr, bydd y Swyddog Cyfranogiad Preswylwyr yn dod gyda nhw i gynorthwyo.
- Rydym wedi cael adegau pan mae Aelodau wedi bod ag anableddau. Lle amlygir y rhain, rydym wastad wedi darparu ar gyfer ac wedi gwneud unrhyw addasiadau.
- Mae'r Panel yn ymdrechu i sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn gyfartal. Nid oes hierarchaeth o ran sut y cynhelir y cyfarfod. Rhoddir parch ac amser i bob unigolyn gael ei sylwadau neu godi cwestiynau. Mae'n amgylchedd diogel, lle mae Preswylwyr yn cael eu hannog a'u diolch am ddarparu adborth.

- Nid yw wastad yn bosibl i Breswylwyr / Gwirfoddolwyr ddweud eu dweud ar bob agwedd gan y gallem redeg allan o amser. Pe bai hyn yn wir, bydd y Swyddog Cwynion yn sicrhau ei fod yn cysylltu â nhw y tu allan i'r cyfarfod ac yn trefnu cyfarfod pellach i wrando a mynd trwy unrhyw faterion sydd ganddyn nhw.
- Mae Papurau Agenda yn cael eu llwytho i'r Board Intel (platfform ar gyfer Aelodau'r Bwrdd / Pwyllgor). Rydym hefyd yn anfon fersiynau electronig o'r Papurau wythnos cyn y cyfarfod i sicrhau fod gan pawb yr amser i ddarllen y wybodaeth a llunio unrhyw sylwadau / ymholiadau. Ar yr adeg hon, cynghorir pob Aelod y gallant gysylltu â mi os oes ganddynt unrhyw broblemau neu gwestiynau i'w codi cyn y cyfarfod.
- Gwneir preswylwyr yn ymwybodol bod cefnogaeth Swyddogion wrth law bob amser pe bai ei angen arnynt. Mae diwylliant ClwydAlyn yn golygu bod Swyddogion yn hapus, yn barod ac yn gefnogol i helpu Preswylwyr.
- Mae'r Tîm Cwynion yn monitro'r cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cynnig a bydd yn trefnu i unrhyw aelodau craidd fynychu sesiynau hyfforddi cwynion.
- Mae'r Tîm Cwynion hefyd wedi helpu i gynorthwyo Aelodau'r Pwyllgor Preswylwyr / gwirfoddolwyr i fynychu cyrsiau hyfforddi eraill y gallai eu cynorthwyo yn eu rolau.

## Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud h.y. canlyniadau'r cyfranogiad a sut y rhannwyd y canlyniadau hynny â'r corff tenantiaid ehangach

Mae'r gwahaniaeth sy'n cael ei wneud / bydd yn ei wneud o ran y Panel Cwynion a chyfranogiad Preswylwyr yn sylweddol:

- Rhoddwyd sicrwydd bod y broses gwynion yn cael ei monitro'n annibynnol A chan Breswylwyr ClwydAlyn.
- Gyda dylanwad y Panel gyda'r broses gwynion a Phreswylwyr / Gwirfoddolwyr mae'n helpu i ddangos y didwylledd a'r tryloywder i chwalu rhwystrau ac adeiladu'r ymddiriedaeth rhwng ClwydAlyn a'i gwsmeriaid.
- Mae'r Panel yn darparu bwlch stopio, i allu camu'n ôl a chymryd yr amser i ystyried y prosesau, nodi themâu ac edrych ar wersi sy'n cael eu dysgu. Ar gyfer y dyfodol, bydd y Panel yn allweddol wrth edrych ar yr elfennau hyn ymhellach - a ydynt wedi parhau i gael eu gweithredu, a ydynt yn dal i fod yn llwyddiannus / yn addas at y diben, os ydynt yn gweithio'n dda a ydynt wedi cael eu cyflwyno i dimau eraill, a oes unrhyw beth y gallwn ei wella eto?
- Didwylledd a thryloywder - mae cwestiynau / heriau a godir gan Breswylwyr yn cael eu hateb yn llawn a lle na ellir gwneud, yn cael eu hadrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf
- Mae rôl y Panel Cwynion bellach wedi'i hen sefydlu, mae'n bryd mynd â hi i'r lefel nesaf, gan edrych ar y gwelliannau i'r gwasanaeth a drilio i lawr ymhellach yn y meysydd hyn.
- Gan fod y Panel yn helpu i wneud y broses gwynion y gorau y gall fod, rydym eisoes yn gweld gwelliannau o ran cwynion Cam 1 yn cael eu datrys yn hytrach na symud ymlaen i Gam 2.
